PROSIECT CYSYLLTIAD GRID TYWI WYSG

GREEN GEN CYMRU

Darparu'r pŵer sydd ei angen ar Gymru

Ffurflen Adborth

Mae'r ymgynghoriad ar agor, hoffem glywed eich barn

Dydd Mawrth 6 Hydref i dydd Mawrth 24 Tachwedd 2026

Trosolwg o'r cynigion

Wrth i Gymru symud tuag at ddyfodol mwy diogel o ran ynni a llai o ran carbon, mae Green GEN Cymru yn datblygu'r seilwaith trydan sydd ei angen i gysylltu cynhyrchu ynni adnewyddadwy â'r rhwydwaith ehangach. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gall cartrefi, busnesau, ffermydd a chymunedau elwa ar gyflenwad diogel a chynaliadwy o ynni a gynhyrchir yn lleol.

Mae Tywi Wysg yn gysylltiad trydan 132kV arfaethedig, tua 98 cilometr o hyd, a fyddai'n cysylltu Parc Ynni arfaethedig Nant Mithil ym Mhowys â phwynt cysylltu newydd National Grid ger Llandyfaelog, Sir Gaerfyrddin.

Wrth i'r galw am drydan gynyddu ledled Cymru, byddai'r Prosiect yn ychwanegu capasiti y mae mawr ei angen at y rhwydwaith, gan helpu i gysylltu cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chefnogi cyflenwad mwy diogel, cynaliadwy o drydan glân a gynhyrchir yn lleol.

Eich adborth: Helpu i lywio'r Prosiect

Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan ym Mhrosiect Cysylltiad Grid Tywi Wysg hyd yma. Mae eich adborth, eich gwybodaeth leol a'ch mewnwelediadau wedi chwarae rhan bwysig wrth ein helpu i ddatblygu a mireinio ein cynigion.

Ers ein hymgynghoriad diwethaf yng Ngwanwyn 2024, mae'r Prosiect wedi esblygu'n sylweddol drwy ymgysylltu parhaus, asesiadau amgylcheddol a datblygiad y dyluniad peirianneg. Mae'r cynigion a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn yn adlewyrchu sut mae adborth a gwaith asesu parhaus wedi helpu i lywio'r Prosiect.

Rydym unwaith eto yn ceisio eich barn ar ein cynigion wedi'u diweddaru er mwyn helpu i lywio cam nesaf datblygiad y Prosiect.

Ein cynigion diwygiedig – Hydref 2026

Wedi'u llywio gan adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, gwybodaeth leol ac astudiaethau amgylcheddol, technegol a pheirianneg pellach, rydym wedi diweddaru ein cynigion.

Mae'r cam diweddaraf hwn o'r ymgynghoriad yn cynnwys nifer o ddatblygiadau allweddol ers Gwanwyn 2024, ac rydym yn ceisio eich adborth ar y canlynol:

- Aliniad Llwybr Drafft wedi'i ddiweddaru – Hydref 2026.
- Dyluniad monopôl newydd a gynigir ar draws Adrannau 2 i 5.
- Lleoliad diwygiedig i'r orsaf switsio, wedi'i adleoli o Adran 1 i Adran 4.
- Adran gebl danddaearol estynedig yn Adran 5.
- Meysydd mynediad dros dro a chyfadeiladau arfaethedig sydd eu hangen yn ystod y gwaith adeiladu.

Rydym yn croesawu eich barn ar yr Aliniad Llwybr Drafft – Hydref 2026.

Mae eich adborth yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth lywio'r Prosiect. Rydym yn eich gwahodd i adolygu'r newidiadau arfaethedig a rhannu eich barn fanwl gyda ni.

Sganiwch y cod QR i ymweld â gwefan y Prosiect, lle gallwch archwilio'r map rhyngweithiol i weld yr **Aliniad Llwybr Drafft – Hydref 2026** yn fanwl, cael mynediad at y llyfryn ymgynghori a deunyddiau'r Prosiect, a llenwi'r ffurflen adborth ar-lein.

www.greengencymru.com/towy_usk

Yr hyn rydym yn ymgynghori arni yn yr ymgynghoriad hwn – Hydref 2026

Adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i glywed: Mireinio'r prosiect gyda'n gilydd.

Mae'r ymgynghoriad hwn ar agor rhwng dydd Mawrth 6 Hydref a dydd Mawrth 24 Tachwedd 2026.

Rydym am glywed am broblemau, cyfleoedd, cyfyngiadau a mesurau lliniaru lleol nad ydynt efallai wedi cael eu nodi eto.

Gall eich adborth ein helpu i fireinio'r llwybr, y trefniadau mynediad adeiladu, yr ardaloedd gwaith a'r mesurau lliniaru amgylcheddol cyn yr ymgynghoriad statudol.

Rydym yn gofyn am adborth ar y canlynol: Aliniad Llwybr Drafft - Hydref 2026, gan gynnwys:

- Tua 92 cilomedr o linell uwchben newydd, a lleoliadau arfaethedig polion pren a monopôl, math newydd o strwythur a gynigir ar hyd llawer o'r llwybr.
- Meysydd mynediad dros dro a chyfadeiladau i gefnogi'r gwaith adeiladu.
- Safle arfaethedig yr orsaf newid yn Adran 4, i'r gogledd-ddwyrain o Lanwrda.
- 6 cilomedr o geblau o dan y ddaear yn Narn 5, gan gynnwys croesfannau o dan yr A40, Afon Tywi, y B4300 a'r B4310.
- Unrhyw faterion, cyfleoedd neu ystyriaethau y dylid eu cadw mewn cof wrth i'r Prosiect barhau i gael ei ddatblygu.
- Eich profiad o'r broses ymgynghori a'r wybodaeth rydym wedi'i darparu.

Gall gwybodaeth leol ac adborth manwl wneud gwahaniaeth gwirioneddol

- **Gall eich gwybodaeth leol a'ch adborth ein helpu i ddatblygu a mireinio ein cynigion ymhellach.** Dywedwch wrthym am unrhyw newidiadau y credwch y gellid eu gwneud i wella'r cynigion neu leihau effeithiau posibl ac, yn bwysig, esboniwch pam.
- **Canllaw yn unig yw'r ffurflen adborth hon.** Gallwch ateb unrhyw un o'r cwestiynau, neu bob un ohonynt, neu gyflwyno sylwadau ar yr agweddau ar y Prosiect sydd o'r diddordeb mwyaf neu sydd fwyaf perthnasol i chi. Os yw'n well gennych, gallwch gyflwyno eich adborth ar wahân drwy lythyr neu e-bost.
- **Po fwyaf o fanylion y gallwch eu darparu, gorau oll.** Rydym yn eich annog i ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl er mwyn ein helpu i ddeall ac ystyried eich adborth yn llawn.

  Gall gwybodaeth ategol fod yn arbennig o ddefnyddiol, gan gynnwys:

  - Ffotograffau
  - Mapiau wedi'u hanodi
  - Cynlluniau a lluniadau
  - Dogfennau perthnasol
  - Cyfeirnodau what3words.

  Wrth gyflwyno sylwadau, defnyddiwch y **Map Rhyngweithiol** ar ein gwefan, neu'r mapiau sydd wedi'u cynnwys yn y Llyfryn Ymgynghori, i nodi lleoliadau penodol ac, lle bo hynny'n berthnasol, rifau cyfeirio polion pren, monopolau neu seilwaith arall. Bydd hyn yn ein helpu i nodi'r lleoliadau rydych yn cyfeirio atynt yn gywir ac i ystyried eich adborth yn llawn.
- **Sicrhewch fod eich adborth yn ymwneud â'r Prosiect a'i effeithiau posibl.** Nid ydym yn gallu ystyried safbwyntiau ar faterion ehangach megis cynhyrchu ynni, polisi'r llywodraeth neu'r Strategaeth Ynni Genedlaethol sy'n datblygu.



Pam mae eich adborth yn bwysig

- Mae adborth a ddaeth i law mewn ymgynghoriadau blaenorol wedi helpu i lywio'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno heddiw.
- Mae Aliniad Llwybr Drafft - Hydref 2026 yn cynrychioli ein cynigion mwyaf datblygedig hyd yma, ond mae'n dal yn bosibl dylanwadu arnynt.
- Bydd adborth a ddaw i law yn ystod yr ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio cam nesaf y gwaith datblygu dyluniad cyn yr ymgynghoriad statudol yn 2027.
- Byddwn yn ystyried eich sylwadau ochr yn ochr â'r asesiadau amgylcheddol parhaus, yr astudiaethau technegol a'r gwaith dylunio peirianneg wrth i'r Prosiect barhau i esblygu.

Rhowch eich barn: Sut mae cyflwyno eich adborth

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn am ein cynlluniau diwygiedig drwy gyflwyno eich adborth mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi ffurflen adborth ar-lein: **www.greengencymru.com/cy/towy_usk**
- Llenwi ffurflen adborth bapur, sydd ar gael mewn digwyddiadau ymgynghori, a'i hanfon i'r cyfeiriad yma: **FREEPOST GREEN GEN TOWY USK**
- Anfon eich adborth drwy e-bost: **info@greengentowyusk.com**

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu gymorth i gyflwyno eich adborth mewn unrhyw fformat, cysylltwch â thîm y Prosiect.

Y dyddiad cau

Cyflwynwch eich adborth erbyn **11:59pm ddydd Mawrth 24 Tachwedd 2026.**

Diolch

Diolch i chi am gymryd yr amser i rannu eich barn. Rydym yn edrych ymlaen at glywed eich adborth a'ch gwybodaeth leol wrth i ni barhau i ddatblygu'r Prosiect.

Amdanoch chi

Teitl

Enw Cyntaf

Chyfenw

Cyfeiriad

Cod Post

E-bost

A hoffech dderbyn diweddariadau am y Prosiect?
❑ Hoffwn ❑ Na hoffwn

Ydych chi'n berchen ar dir neu'n meddiannu tir o fewn yr Aliniad Llwybr Drafft arfaethedig?
❑ Hoffwn ❑ Na hoffwn

Os felly, a ydych wedi cael eich cysylltu gan ein tîm tir?
❑ Hoffwn ❑ Na hoffwn

Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad?
❑ Hoffwn ❑ Na hoffwn

Os ydych, nodwch enw'r sefydliad:

Sut y byddwn yn defnyddio eich adborth

Byddwn yn defnyddio eich adborth i helpu i adolygu a mireinio ein cynigion wrth i'r Prosiect barhau i gael ei ddatblygu.

Mae'r Prosiect yn cael ei ddatblygu drwy'r broses Prosiect Seilwaith Arwyddocaol (PSA), o dan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 a'r Rheoliadau cysylltiedig. Bydd yr adborth a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio datblygiad parhaus y cynigion cyn cyflwyno cais yn y dyfodol am Orchymyn Caniatâd Seilwaith (ICO).

Bydd adborth a dderbynnir gan gymunedau, awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a rhanddeiliaid eraill yn helpu i lywio cam nesaf y gwaith dylunio, ochr yn ochr ag asesiadau amgylcheddol, technegol a pheirianneg parhaus ac arolygon amgylcheddol.

Cyn i ni gyflwyno cais am Orchymyn Caniatâd Seilwaith (ICO), bydd Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Statudol (PAC) yn cael ei gynnal, a ragwelir yn 2027. Bydd hyn yn darparu cyfle pellach i adolygu'r cynigion manwl a gwneud sylwadau arnynt, yn ogystal ag ar y Datganiad Amgylcheddol drafft.

C1. A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Aliniad Llwybr Drafft – Hydref 2026 a'r newidiadau arfaethedig, gan gynnwys cyflwyno'r dyluniad monopôl arfaethedig?

Rhowch gymaint o fanylion â phosibl, gan gynnwys lleoliadau penodol ac, lle bo hynny'n berthnasol, rifau cyfeirio polion pren neu fonopolau. Efallai y byddwch hefyd am ddarparu cyfeirnodau what3words er mwyn helpu i nodi lleoliadau'n fanwl gywir. Gall gwybodaeth ategol, megis ffotograffau, mapiau wedi'u hanodi, cynlluniau, lluniadau a dogfennau perthnasol eraill, ein helpu i ddeall ac ystyried eich adborth yn well. Rydym yn croesawu sylwadau ar unrhyw faterion lleol, cyfyngiadau, cyfleoedd neu ystyriaethau a allai ein helpu i fireinio'r cynigion ymhellach.

C2. A oes unrhyw faterion lleol, cyfleoedd, cyfyngiadau neu ystyriaethau eraill a allai ein helpu i ddatblygu a mireinio'r Aliniad Llwybr Drafft – Hydref 2026 ymhellach?

Rydym yn croesawu unrhyw wybodaeth leol a allai ein helpu i ddeall yn well effeithiau posibl neu gyfleoedd i fireinio'r cynigion. Rhowch gymaint o fanylion â phosibl. Gall gwybodaeth fanwl am leoliadau, megis cyfeirnodau what3words, ynghyd â gwybodaeth ategol fel ffotograffau, mapiau wedi'u hanodi, cynlluniau, lluniadau a dogfennau perthnasol eraill, ein helpu i ddeall ac ystyried eich adborth yn gywir.

Meysydd mynediad dros dro a chyfadeiladau arfaethedig sydd eu hangen yn ystod y gwaith adeiladu.

C3. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y gweithgareddau adeiladu arfaethedig, gan gynnwys ardaloedd mynediad dros dro, cyfadeiladau, traffig adeiladu, hawliau tramwy cyhoeddus a gweithgareddau ffermio?

Rhowch fanylion am unrhyw faterion lleol, cyfyngiadau, cyfleoedd neu ystyriaethau y dylid eu hystyried yn ystod y gwaith adeiladu. Lle bo modd, nodwch leoliadau penodol ac eglurwch unrhyw fesurau a allai helpu i leihau effeithiau posibl. Gall gwybodaeth fanwl am leoliadau, megis cyfeirnodau what3words, ynghyd â gwybodaeth ategol fel ffotograffau, mapiau wedi'u hanodi, cynlluniau, lluniadau a dogfennau perthnasol eraill, fod yn arbennig o ddefnyddiol.

Yr Aliniad Llwybr Drafft
Adrannau 1 i 5

GREEN GEN CYMRU

C4. Ar ôl adolygu'r Aliniad Llwybr Drafft – Hydref 2026, a oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynigion yn Adrannau 1 i 5, gan gynnwys y polion pren, y monopolau, yr orsaf switsio a'r adran gebl danddaearol arfaethedig?

1	2	3	4	5
Parc Ynni Nant Mithil i Fryn Aberedw	Bryn Aberedw i Langamarch	Llangamarch i Lanymddyfri	Llanymddyfri i Landeilo	Llandeilo i Landyfaelog

Dywedwch wrthym am unrhyw faterion lleol, cyfyngiadau, cyfleoedd neu ystyriaethau eraill o fewn yr adran(adrannau) a ddewiswyd y dylid eu hystyried wrth i'r Prosiect ddatblygu. Lle bo modd, gall gwybodaeth fanwl am leoliadau, megis cyfeirnodau what3words, ynghyd â gwybodaeth ategol fel ffotograffau, mapiau wedi'u hanodi, cynlluniau, lluniadau a dogfennau perthnasol eraill, ein helpu i ddeall ac ystyried eich adborth yn gywir.

Adran 1: Parc Ynni Nant Mithil i Fryn Aberedw

Adran 2: Bryn Aberedw i Langamarch

Adran 3: Llangamarch i Lanymddyfri

Adran 4: Llanymddyfri i Landeilo

Adran 5: Llandeilo i Landyfaelog

Ynglŷn â'r ymgynghoriad

C5. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y wybodaeth a'r deunyddiau ymgynghori a ddarparwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn?

Rydym yn croesawu eich barn ar ba mor dda y gwnaeth y wybodaeth a ddarparwyd eich helpu i ddeall y cynigion ac a oes unrhyw beth y gallem ei wella ar gyfer gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn y dyfodol.

Hysbysiad Preifatrwydd

Green Generation Networks Cymru Limited yw cwmni cyfyngedig preifat sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr o dan rif cwmni 13060815, gyda'i swyddfa gofrestredig yn Hodge House, Guildhall Place, Caerdydd, y Deyrnas Unedig, CF10 1DY. Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol. Pryd bynnag y byddwch yn darparu gwybodaeth o'r fath, mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol i'w defnyddio yn unol â'r holl ddeddfau perthnasol sy'n ymwneud â diogelu data personol, gan gynnwys Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU).

Sut bydd Green GEN Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwn amdanoch?

Byddwn yn defnyddio'r data personol a gesglir drwy'r ymgynghoriad hwn at y dibenion canlynol:

- Dadansoddi eich adborth i'r ymgynghoriad.
- Paratoi Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio (PAC) yn seiliedig ar ein dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd (ni fydd unigolion yn cael eu hadnabod yn yr Adroddiad).
- Anfon diweddariadau atoch am ganlyniadau'r ymgynghoriad a datblygiadau eraill sy'n ymwneud â'r Prosiect, os ydych wedi dewis derbyn y diweddariadau hyn.
- Cadw cofnodion o ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn cysylltiad â Phrosiect Tywi Wysg.

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn ei chynnwys yn y ffurflen hon yn cael ei thrin a'i defnyddio gan (neu ei rhannu â) y derbynwyr canlynol er mwyn cofnodi, dadansoddi ac adrodd ar yr adborth a dderbyniwn:

- Gall gael ei rhannu â Phenderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) a Gweinidogion Cymru, lle bo angen fel rhan o'r broses caniatâd seilwaith (a fydd yn ystyried ein cais am ganiatâd i adeiladu Prosiect Cysylltiad Grid Tywi Wysg Green GEN Cymru).
- Cynghorwyr proffesiynol, gan gynnwys ein cynghorwyr cyfreithiol a chwmnïau ac ymgynghorwyr trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau i ni ac ar ein rhan mewn cysylltiad â Phrosiect Cysylltiad Grid Tywi Wysg Green GEN Cymru.

Pa hawliau sydd gennyf dros fy nata personol?

O dan delerau GDPR y DU, mae gennych rai hawliau ynghylch y ffordd y mae Green GEN Cymru yn cadw ac yn defnyddio eich data personol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein Datganiad Preifatrwydd llawn ar **www.greengencymru.com/privacy-policy.**

Cysylltwch â ni

Ffyrdd o gyflwyno adborth a chysylltu â thîm y Prosiect:

Gwefan: **www.greengencymru.com/cy/towy_usk/overview/**

E-bost: **info@greengentowyusk.com**

Post: Gallwch ysgrifennu atom yn rhad ac am ddim yn**FREEPOST GREEN GEN TOWY USK** (nid oes angen stamp na chyfeiriad pellach)

Ffôn: Gallwch ein ffonio yn rhad ac am ddim ar **0800 3777 339**

Rydym wedi defnyddio ffynonellau cynaliadwy i gynhyrchu'r ffurflen adborth hon.